sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Cynyrchiadau gwreiddiol ar CBBC

## Datganiad ar gais gan y BBC i wneud newidiadau i'r Drwydded Weithredu

**DATGANIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 19 Mai 2022

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

**Mae'r ddogfen hon yn disgrifio penderfyniad Ofcom ar gais gan y BBC i ostwng maint y cynyrchiadau gwreiddiol y mae'n rhaid iddi eu darlledu ar CBBC, fel y nodir o dan ei Thrwydded Weithredu.**

1.1 Wrth i wylwyr ifanc droi'n gynyddol at wasanaethau ar-alw y telir amdanynt a gwasanaethau ar-lein eraill, mae CBBC bellach yn cyrraedd 14% o blant 6-12 oed ar y teledu bob wythnos, o'i gymharu â 27% yn 2015.[1] Er mwyn apelio'n well at y gynulleidfa ifanc hon sy'n dirywio'n gyflym, mae'r BBC wedi penderfynu buddsoddi a dangos mwy o animeiddio o'r DU ar sianel CBBC. Mae hefyd yn cynllunio cynnydd cymedrol mewn caffaeliadau animeiddio. Mae'r cynlluniau hyn yn gofyn am ostyngiad bach i'w gwota cynyrchiadau gwreiddiol CBBC o dan y Drwydded Weithredu. [2] Ar hyn o bryd, ym mhob blwyddyn galendr, mae angen i 72% o'r holl oriau ar CBBC fod yn gynyrchiadau gwreiddiol. Mae'r BBC yn gofyn i hyn gael ei ostwng i 66% yn 2022 a 2023, a 68% ar gyfer 2024 ac wedi hynny (y 'Cais'). Nid effeithir ar gwota'r BBC ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol o'r DU a ddarlledir am y tro cyntaf ar CBBC.

1.2 Bu i ni ymgynghori'n gyhoeddus ar y Cais rhwng 10 Mawrth a 7 Ebrill 2022 a nodi barn gychwynnol ein bod yn bwriadu cymeradwyo'r Cais, yn amodol ar ymgynghoriad. Bu i ni ddweud ein bod am weld y BBC yn arloesi a'n bod o'r farn ei bod yn iawn i'r BBC amrywio ei wasanaethau er mwyn aros yn berthnasol i gynulleidfaoedd ifainc, o ystyried y gostyngiad mewn cyrhaeddiad CBBC. Bu i ni ddweud hefyd, er y byddem yn pryderu pe bai caffaeliadau'n chwarae rhan rhy fawr yng nghymysgedd cynnwys CBBC, fod graddfa'r newid yn gymedrol ac yn annhebygol o effeithio'n negyddol ar ansawdd CBBC. A ninnau wedi ystyried pob ymateb i'n hymgynghoriad yn ofalus[3], rydym yn awr yn cadarnhau ein barn gychwynnol.

1.3 Rydym yn cyhoeddi ein penderfyniad cyn yr ymgynghoriad arfaethedig ar ein hadolygiad ehangach o sut y dylai Trwydded Weithredu gyfan y BBC esblygu i adlewyrchu arferion newidiol cynulleidfaoedd. Bydd ein cynigion yn anelu at ymgorffori gwasanaethau ar-lein y BBC yn y Drwydded Weithredu ac yn ceisio rhoi mwy o gyfle i'r BBC benderfynu ar y ffordd orau o ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd. Byddai hyn yn cael ei gefnogi drwy gynigion i'n galluogi i ddwyn y BBC i gyfrif yn fwy effeithiol drwy ofyn am fwy o dryloywder ganddo. Bydd y cynigion hyn hefyd yn cefnogi ein hymdrechion i ddwyn y BBC i gyfrif am y newidiadau y mae'n eu gwneud yn awr i CBBC.

---

[1] BARB. Meini prawf cyrraedd: 3+ munud yn olynol, gwylio cyfunol 28 diwrnod ar set deledu. Cadarnhaodd ein hadroddiad Plant a rhieni: defnydd o'r cyfryngau ac agweddau atynt 2022 diweddar hefyd fod y duedd o blant yn gwylio cynnwys teledu ar wasanaethau ar-alw y telir amdanynt yn hytrach nag ar deledu darlledu wedi parhau.

[2] Mae'r gostyngiad y gofynnodd y BBC amdano hefyd yn ystyried yr effeithiau y mae'r BBC yn eu priodoli i lansio BBC Three.

[3] Cyhoeddir ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr un pryd â'r datganiad hwn ac maent ar gael ar ein gwefan.

## Yr hyn rydym wedi'i benderfynu a pham - yn gryno

**Rydym wedi penderfynu cymeradwyo'r cais gan y BBC am ostwng cwota cynyrchiadau gwreiddiol CBBC. Rydym yn ystyried bod maint y gostyngiad yn fach ond y bydd yn galluogi'r BBC i esblygu ac arloesi i gyrraedd cynulleidfaoedd ifainc yn well.**

Mae'n rhaid rhoi buddsoddi mewn ystod eang o gynnwys o'r DU sy'n apelio at blant fod wrth wraidd yr hyn y mae'r BBC yn ei wneud. Ond rydym wedi amlygu'n gyson yn ein Hadroddiadau Blynyddol ar berfformiad y BBC[4] ei bod yn profi anhawster wrth ddenu a chadw cynulleidfaoedd ifanc. Mae hyn yn peri risg i'w gallu i gyflawni yn erbyn ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus, sef gwasanaethu pob cynulleidfa ledled y DU. Mae'r risgiau hefyd wedi'u gwaethygu gan bwysau cyllido a chostau cynhyrchu cynyddol sy'n effeithio ar holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSB) y DU. Mae angen i'r BBC a darlledwyr eraill ddod o hyd i ffyrdd o ymateb i'r heriau hyn – nid oes modd i allbwn aros yn gyson pan fydd cynulleidfaoedd a chyllidebau'n newid.

Mater i'r BBC yw gwneud penderfyniadau strategol a golygyddol ynghylch sut mae'r Gorfforaeth yn esblygu ei rhaglenni a'i gwasanaethau i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well. Mae wedi penderfynu cynyddu animeiddio o ystyried y potensial i hyn adeiladu apêl gyda chynulleidfaoedd. Ein rôl ni, mewn perthynas â'r cais gan y BBC, yw penderfynu a fydd gostwng y cwota cynyrchiadau gwreiddiol yn effeithio ar y ddarpariaeth i gynulleidfaoedd a'i gallu i gyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus.

Yn gyffredinol, rydym yn parhau i gredu bod graddfa'r gostyngiad y mae'r BBC wedi gofyn amdano ar gyfer cwota cynyrchiadau gwreiddiol CBBC yn fach. Mae hyn yn annhebygol, ynddo'i hun, o effeithio ar ansawdd a natur unigryw CBBC.

**Rydym yn deall pryderon a godwyd gan randdeiliaid am gaffaeliadau ond rydym o'r farn y gall caffaeliadau a ddewisir yn ofalus o fewn cymysgedd cynnwys cyffredinol CBBC chwarae rhan bwysig wrth wneud CBBC yn fwy apelgar i gynulleidfaoedd.** Mae'r cynnydd mewn caffaeliadau sy'n deillio o'r gostyngiad yn y cwota cynyrchiadau gwreiddiol yn fach. Felly, rydym o'r farn ei bod yn annhebygol o olygu y bydd caffaeliadau'n chwarae rhan rhy fawr yng nghymysgedd cynnwys CBBC, neu i effeithio'n negyddol ar ansawdd a natur unigryw CBBC. Bydd disgwyl i'r BBC barhau i ddarparu allbwn a gwasanaeth unigryw, ond mater i'r BBC yw'r ffordd y mae'n strwythuro'r cymysgedd cynnwys a'r buddsoddiad mewn cynyrchiadau CBBC newydd.

**Bydd angen i'r BBC fod yn dryloyw ynghylch sut y mae'n cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd iau, a byddwn yn ei ddwyn i gyfrif. Rydym yn disgwyl iddi werthuso llwyddiant y newidiadau i CBBC yn gyhoeddus a bod yn barod i barhau i addasu fel y bo angen.** Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod tryloywder o ran newidiadau i allbwn gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn bwysig. Fel rhan o'n hymgynghoriad sydd ar ddod ar yr adolygiad ehangach o Drwydded Weithredu'r BBC, byddwn yn gofyn am dryloywder ychwanegol gan y BBC o ran sut y mae'n cyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus, gan gynnwys sut y mae'n cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd iau.

[4] Mae adroddiadau blynyddol Ofcom ar y BBC ar gael ar wefan Ofcom.